Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# Diwygio'r Rheolau Sefydlog:

## Rhannu swydd cadeirydd pwyllgor

Chwefror 2026

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), y Pwyllgor Busnes sy'n gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud neu ddiwygio'r Rheolau Sefydlog.

Mae'r adroddiad hwn yn argymell bod y Senedd yn cytuno ar Reol Sefydlog dros dro – Rheol Sefydlog 17A – i wneud darpariaeth sy'n galluogi rolau cadeirydd pwyllgor i gael eu dal gan ddau Aelod sy'n rhannu swydd mewn amgylchiadau penodol ac am gyfnod treialu.

Os cânt eu derbyn, bydd y newidiadau arfaethedig yn dod i rym ar ddechrau'r Senedd nesaf ym mis Mai 2026.

Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynigion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog fel yr amlinellir yn yr Atodiad.

# Cynnwys


**1. Cefndir ....................................................................................................4**

Rhannu swydd ....................................................................................................4

Ystyriaeth y Senedd ....................................................................................................4

**2. Rhannu swydd ....................................................................................................5**

Rolau’r Senedd ....................................................................................................5

Cynigion manwl ....................................................................................................6

Nifer yr Aelodau fyddai'n ymwneud â rhannu swydd ....................................................................................................6

Aelodaeth grŵp gwleidyddol ....................................................................................................6

Ethol a phenodi ....................................................................................................7

Gwaharddiadau ....................................................................................................7

Cyfyngu ar nifer y cadeiryddion pwyllgor sy’n rhannu swydd yn ystod y cyfnod treialu ....................................................................................................8

Cyfyngu i bwyllgorau penodol ....................................................................................................8

Statws y ddau Aelod sy'n rhannu swydd cadeirydd pwyllgor. ....................................................................................................9

Presenoldeb mewn cyfarfodydd ....................................................................................................9

Cworwm ....................................................................................................10

Pleidleisio ....................................................................................................10

Dirprwyon ....................................................................................................10

Cadeirydd Dros Dro ....................................................................................................10

Protocol ....................................................................................................11

Ymddiswyddo, diswyddo a swydd wag ....................................................................................................11

Is-bwyllgorau ....................................................................................................12

Natur a hyd cyfnod adolygu ....................................................................................................12

Datgan buddiannau’r Aelodau ....................................................................................................13

**3. Penderfyniad ....................................................................................................14**

**Atodiad A: Newid arfaethedig i’r Rheolau Sefydlog a’r nodiadau esboniadol.......................................................................................................15**

**Atodiad B: Y Rheolau Sefydlog, fel y'u diwygiwyd............................ 16**

# 1. Cefndir

## Rhannu swydd

**1.** Mae rhannu swydd fel arfer yn cynnwys o leiaf ddau unigolyn yn rhannu rôl amser llawn, gyda'r cyflog wedi'i ddosbarthu ar sail pro rata sy'n adlewyrchu'r rhaniad llafur y cytunwyd arno, ond heb fod yn fwy na chyflog un person mewn rôl gyfwerth ag amser llawn.

**2.** Nod rhannu swydd yn bennaf yw darparu hyblygrwydd i weithwyr, gan hyrwyddo cydbwysedd gwell rhwng gwaith a bywyd, rheoli cyfrifoldebau gofalu'n haws, a darparu ar gyfer anghenion iechyd a llesiant. Mae manteision sy'n gysylltiedig â rhannu swydd yn cynnwys gwella hygyrchedd rolau ac amrywiaeth y rhai sy'n ymgymryd â hwy. Mae heriau'n cynnwys y risg y bydd y gwaith cronnol a wneir gan y partneriaid yn y trefniad yn cyfateb i fwy na 100 y cant o'r amser neu'r rôl, a rheoli gwahaniaethau barn neu ddull rhwng y ddau bartner yn y trefniad.

**3.** Mae gan y ddau bartner statws cyfartal, maent yn rhannu cyfrifoldebau, ac yn dilyn trefniad neu brotocol cytunedig sy'n adlewyrchu eu sgiliau, eu dewisiadau a'u hanghenion (er enghraifft, gweithio ar ddiwrnodau gwahanol neu gyflawni dyletswyddau gwahanol).

## Ystyriaeth y Senedd

**4.** Ym mis Mai 2022, argymhellodd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd y dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried: "y materion ymarferol a gweithdrefnol sy'n gysylltiedig â…dau Aelod yn rhannu swydd benodol (megis Cadeirydd Pwyllgor)".[1] Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys hyn yn ei raglen waith weithdrefnol ac ystyriodd ddatblygu cynigion manwl ar gyfer rhannu swydd cadeirydd pwyllgor ar sawl achlysur yn 2024.

**5.** Cyhoeddodd y Pwyllgor Busnes alwad am dystiolaeth[2] ar egwyddor rhannu swyddi cadeiryddion pwyllgor yn haf 2024. Roedd yr ymgynghoriad cam 1 hwn yn cynnwys galwad gyfyngedig wedi'i thargedu am dystiolaeth gyda rhanddeiliaid a nodwyd, gan gynnwys seneddau a chyrff eraill, academyddion, cynghorau a sefydliadau eraill â threfniadau tebyg ar waith, cyrff rhyngseneddol,

---

[1] Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Mai 2022, argymhelliad 14

[2] Y Pwyllgor Busnes, Tudalen ymgynghoriad Rhannu swydd cadeirydd pwyllgor [fel ar 22 Awst 2025]

academyddion ac undebau llafur. Gofynnodd y Pwyllgor Busnes hefyd am farn Fforwm y Cadeiryddion ar egwyddorion ac ymarferoldeb rhannu swydd cadeirydd.

**6.** Ar 8 Hydref 2024, ystyriodd y Pwyllgor Busnes y dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r ymgynghoriad cam 1 a chytunodd ar yr egwyddorion sylfaenol a fyddai'n sail i gynnig ar gyfer ail gam yr ymgynghoriad.

**7.** Yn hydref 2024, cynhaliodd y Pwyllgor Busnes gam 2[3] o'i ymgynghoriad, a oedd yn canolbwyntio ar Aelodau o'r Senedd, grwpiau gwleidyddol y Senedd, y Bwrdd Taliadau Annibynnol, y Comisiynydd Safonau, Comisiwn y Senedd a Fforwm y Cadeiryddion. Gofynnodd am eu barn am gynigion a oedd yn adlewyrchu ei ystyriaeth o ganlyniadau'r alwad wedi'i thargedu am dystiolaeth a wnaed yn ystod cyfnod 1.

**8.** Ar 19 Mehefin 2025, ystyriodd y Pwyllgor Busnes faterion sy'n deillio o'r dystiolaeth roedd wedi'i chasglu, a chytunodd y mwyafrif o aelodau'r Pwyllgor i gynnig treial cyfyngedig o rannu swydd cadeirydd pwyllgor.

**9.** Ar 18 Medi 2025, cytunodd y Pwyllgor Busnes yn ffurfiol i gynnig bod y Rheol Sefydlog dros dro yn yr Atodiad yn dod i rym o ddechrau'r Senedd nesaf ym mis Mai 2026.

# 2. Rhannu swydd

## Rolau'r Senedd

**10.** Gan fod cadeiryddion pwyllgor yn rolau nad ydynt yn anstatudol, nid oes angen newidiadau deddfwriaethol i alluogi rhannu swyddi o'r fath[4] ac mae'r Senedd yn rhydd i gytuno ar ei gweithdrefnau ei hun yn hyn o beth.

**11.** Byddai rhannu swyddi mewn rolau eraill sy'n gysylltiedig â'r Senedd yn gofyn newidiadau deddfwriaethol ac ystyriaeth ehangach. O dan adran 7 o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)[5], mae rhaid i'r Llywydd, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyfarfod cyntaf y Seithfed Senedd (a dim hwyrach na chwe mis ar ôl y cyfarfod hwnnw), gyflwyno cynnig i sefydlu pwyllgor i adolygu trefniadau rhannu swydd ar gyfer Aelodau o'r Senedd a deiliaid swyddi

---

[3] Y Pwyllgor Busnes, Tudalen ymgynghoriad Rhannu swydd cadeirydd pwyllgor [fel ar 22 Awst 2025]
[4] Gweler Llywodraeth Cymru, Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) – Memorandwm Esboniadol, Medi 2023, paragraff 208.
[5] Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024

perthnasol (a deiliaid swyddi dros dro).[6] Felly, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnig rhannu rolau cadeirydd pwyllgor yn unig ar hyn o bryd.

**12.** Mae goblygiadau ymarferol a gweithdrefnol yn gysylltiedig ag unrhyw gynnig i alluogi rôl cadeirydd pwyllgor i gael ei rhannu gan ddau Aelod. Ar y sail honno, barn y Pwyllgor Busnes yw mai Rheol Sefydlog dros dro sy'n galluogi rhannu swydd cadeirydd pwyllgor mewn amgylchiadau penodol am gyfnod treialu yw'r ffordd briodol ymlaen ar hyn o bryd.

## Cynigion manwl

**13.** Ystyriodd y Pwyllgor Busnes nifer o elfennau sy'n sail i'r ffordd y gellid dal rôl cadeirydd pwyllgor mewn trefniadau rhannu swydd ac mae wedi cytuno i gyflwyno'r cynigion a ganlyn:

### Nifer yr Aelodau fyddai'n ymwneud â rhannu swydd

**14.** Mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig y dylai'r Rheolau Sefydlog nodi y gall rôl cadeirydd pwyllgor gael ei dal gan ddau Aelod mewn trefniadau rhannu swydd, ond dim mwy na dau Aelod.

### Aelodaeth grŵp gwleidyddol

**15.** Mae trefniadau cadeirio pwyllgorau'r Senedd yn seiliedig ar y canlynol:

a. cadeiryddion yn cael eu dyrannu i grwpiau gwleidyddol er mwyn penderfynu pa Aelodau y caniateir iddynt fod yn gymwys i'w hethol i'r rôl (Rheol Sefydlog 17.2A, a Rheol Sefydlog 17.2F sy'n darparu mai dim ond aelod o'r grŵp gwleidyddol a nodir y caniateir iddo gael ei enwebu ar gyfer y rôl),

b. cydbwysedd cadeiryddion ar draws y pwyllgorau'n adlewyrchu'r grwpiau gwleidyddol y mae'r Aelodau'n perthyn iddynt (Rheol Sefydlog 17.2B)

**16.** Er mwyn osgoi newidiadau sylfaenol i'r egwyddorion sylfaenol hyn, mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig bod rhaid i unrhyw ddau Aelod sydd am rannu swydd cadeirydd pwyllgor berthyn i'r un grŵp gwleidyddol (boed wedi'u hethol neu eu penodi).

---

[6] Mae'r swyddi hyn yn cynnwys: Aelod o'r Senedd, Llywydd a Dirprwy Lywydd, Comisiynwyr y Senedd, Gweinidogion Cymru a Dirprwy Weinidogion Cymru, a'r Cwnsler Cyffredinol, y byddai angen newidiadau deddfwriaethol ar gyfer pob un.

## Ethol a phenodi

**17.** Er mwyn cadw cysondeb â'r gweithdrefnau presennol ar gyfer cadeiryddion un Aelod, byddai angen i'r Rheolau Sefydlog ddarparu ar gyfer ethol (Rheol Sefydlog 17.2E – 17.2KA) a phenodi (Rheol Sefydlog 17.2T) cadeiryddion sy'n rhannu swydd.

**18.** Mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig y byddai cadeiryddion sy'n rhannu swydd yn cael eu hethol neu eu penodi yn unol â'r gweithdrefnau a nodir ar gyfer cadeiryddion un Aelod. Yn achos cadeiryddion etholedig, byddai hyn yn cynnwys:

a. y ddau Aelod sydd am rannu swydd cadeirydd pwyllgor yn cael eu henwi mewn un enwebiad;

b. nid yw'r un o'r ddau Aelod sydd am rannu swydd cadeirydd pwyllgor yn gallu enwebu nac eilio'r llall;

c. ni chaiff y naill neu'r llall o'r ddau Aelod sydd am rannu swydd cadeirydd pwyllgor sefyll fel ymgeisydd rhannu swydd ac ymgeisydd unigol am yr un cadeirydd pwyllgor;

d. pan fo enwebiadau ar gyfer cadeiryddion mwy nag un pwyllgor yn cael eu cymryd yn yr un cyfarfod o'r Senedd, ni chaniateir enwebu Aelod am fwy nag un o'r cadeiryddion hynny, naill ai fel ymgeisydd unigol neu fel rhan o ymgeisydd rhannu swydd.

**19.** Dan drefniadau o'r fath, pe bai etholiad yn cael ei herio, byddai pleidlais gudd. Byddai'r ymgeiswyr rhannu swydd yn cael pleidlais yr un mewn etholiad o'r fath, fel ym mhob etholiad arall.

**20.** Yn achos penodi cadeiryddion, byddai'r ddau Aelod y cynigir eu bod yn rhannu swydd cadeirydd pwyllgor yn cael eu henwi yn y cynnig a gyflwynir gan y Pwyllgor Busnes yn cynnig aelodaeth pwyllgor.

## Gwaharddiadau

**21.** Nododd y Pwyllgor Busnes y byddai angen eithrio'r pwyllgor hwnnw a Phwyllgor y Llywydd o'r darpariaethau rhannu swydd gan fod rhaid iddynt gael eu cadeirio gan y Llywydd (neu'r Dirprwy Lywydd).

**22.** Cynigiodd nifer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad eithrio'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad hefyd, oherwydd yr angen am barhad a natur sensitif ei waith. Mae'r Pwyllgor Busnes yn cytuno ac yn cynnig na ddylai darpariaethau Rheol Sefydlog

17A fod yn gymwys i'r pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a bennir yn Rheol Sefydlog 22 (Safonau Ymddygiad).

## Cyfyngu ar nifer y cadeiryddion pwyllgor sy'n rhannu swydd yn ystod y cyfnod treialu

**23.** O ystyried pa mor newydd yw'r syniad bod Aelodau'n rhannu swydd cadeirydd pwyllgor mewn cyd-destun seneddol, mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig y dylid gosod terfyn ar gyfanswm y pwyllgorau y gellid cyflwyno trefniadau rhannu swydd ar eu cyfer yn ystod y cyfnod treialu. Byddai gwneud hynny'n golygu y gellid asesu a yw'r trefniadau'n llwyddiannus, ai peidio, gan eu cyfyngu i nifer gyfyngedig o bwyllgorau.

**24.** Gallai cyfyngu'r treial i un pwyllgor fod yn rhy gyfyngol, o ystyried y gallai llwyddiant neu fethiant y trefniadau rhannu swydd fod yn uniongyrchol gysylltiedig â chyfansoddiad partneriaeth benodol. Mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig y byddai terfyn hyd at **dri** phwyllgor yn briodol. Fodd bynnag, ni fyddai gofyniad i'r Senedd ethol neu benodi nifer benodol o gadeiryddion pwyllgor ar sail rhannu swydd.

## Cyfyngu i bwyllgorau penodol

**25.** Ar ôl cytuno i gynnig y dylid cymhwyso terfyn i nifer y cadeiryddion pwyllgor rhannu swydd y gellid eu henwebu a'u hethol, neu eu penodi, yn ystod treial, ystyriodd y Pwyllgor Busnes sut y gellid cymhwyso terfyn o'r fath yn ymarferol. Mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig mai cyfyngu cadeiryddion pwyllgor rhannu swydd i bwyllgorau penodol yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyfyngu'r nifer gyffredinol, gan leihau'r effaith ar y broses ethol cadeirydd pwyllgor.

**26.** Os yw'r Pwyllgor Busnes yn penderfynu pa bwyllgorau sy'n gymwys pan fydd yn penderfynu ar strwythur y pwyllgorau a dyraniad cadeiryddion i grwpiau, bydd hyn yn lleihau'r effaith ar y prosesau enwebu ac etholiad gan y bydd yn glir cyn enwebu pa bwyllgorau sy'n gymwys. Gallai'r cynnig i ddyrannu pwyllgorau i grwpiau o dan Reol Sefydlog 17.2A hefyd nodi pa bwyllgorau a allai gael enwebiadau ar gyfer ymgeiswyr sydd am rannu swydd cadeirydd pwyllgor. Bydd angen mân newid canlyniadol hefyd i Reol Sefydlog 12.16(iv), fel y cynigir yn Atodiad A.

**27.** Ni fydd gofyniad i ymgeiswyr rhannu swydd gael eu henwebu a/neu eu hethol i'r pwyllgorau y pennir eu bod yn gymwys ar gyfer cadeiryddion sy'n

rhannu swydd a bydd ymgeiswyr unigol yn dal i allu cael eu henwebu. Bydd yn barhau i fod yn fater i'r Aelodau benderfynu ymgynnig (fel ymgeiswyr unigol neu ymgeiswyr rhannu swydd, yn amodol ar y gofynion enwebu ac eilio), ac yn fater i'r Senedd benderfynu pa un o'r ymgeiswyr a enwebwyd i bleidleisio drosto.

## **Statws y ddau Aelod sy'n rhannu swydd cadeirydd pwyllgor**.

**28.** Mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig, pan fo dau Aelod yn rhannu swydd cadeirydd pwyllgor:

a. y dylai hyn gyfrif fel un lle ar y pwyllgor at ddibenion Rheol Sefydlog 17 a'i Hatodiad (e.e. at ddibenion cyfrifo a yw dyrannu cadeiryddion/aelodaeth pwyllgor yn adlewyrchu cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol y mae Aelodau'n perthyn iddynt);

b. y dylid caniatáu i'r naill neu'r llall o'r ddau Aelod weithredu ar ran y ddau mewn perthynas â swyddogaethau cadeirydd pwyllgor (yn amodol ar unrhyw brotocol y y mae'r Pwyllgor Busnes yn ei wneud yn ofynnol i'r ddau Aelod ei lunio – fel yr amlinellir ym mharagraffau 39 i 41).

## Presenoldeb mewn cyfarfodydd

**29.** Gan y gall dau Aelod sy'n rhannu swydd cadeirydd pwyllgor ddewis rhannu eu cyfrifoldebau, er enghraifft, yn ôl pwnc o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor, efallai y bydd adegau pan fyddai o fudd i'r ddau fod yn bresennol mewn cyfarfod (e.e. pe bai materion trawsbynciol yn cael eu trafod mewn sesiwn graffu ar gyllideb ddrafft).

**30.** Fel y cyfryw, mae'r Pwyllgor Busnes yn ystyried y dylai'r ddau Aelod allu bod yn bresennol mewn cyfarfod ar yr un pryd, ond gyda dim ond un ohonynt (y "cadeirydd gweithredol") yn gallu gweithredu ar unrhyw adeg benodol at ddibenion arfer swyddogaethau cadeirydd yn ystod cyfarfodydd (e.e. cadw trefn, rheoli materion a all fod yn sub judice, rheoli cworwm, cynnal a grwpio pleidleisiau, gohirio, neu ei gwneud yn ofynnol i dyst dyngu llw). Gan y bydd y cadeiryddion sy'n rhannu swydd yn rhannu un lle pwyllgor, byddai'r cadeirydd anweithredol yn bresennol yn unol â Rheol Sefydlog 17.49, felly ni fyddai'n cael pleidleisio.

**31.** Mewn amgylchiadau o'r fath, mater i'r cadeirydd gweithredol fyddai sicrhau y byddai cyfleoedd i gymryd rhan mewn trafodion yn cael eu rhannu'n gymesur rhwng yr holl Aelodau sy'n bresennol. Byddai trefniadau hefyd yn cael eu

gwneud i sicrhau bod y cofnodion yn nodi'n glir pa Aelod oedd wedi bod y cadeirydd gweithredol, a pha un oedd wedi bod yn bresennol dan Reol Sefydlog 17.49.

## Cworwm

**32.** Fel y nodwyd uchod, pan fo dau Aelod yn rhannu swydd cadeirydd pwyllgor, mae'r cadeirydd yn cyfrif fel un lle pwyllgor at ddibenion Rheol Sefydlog 17 a'i Hatodiad. Yn unol â'r egwyddor hon, a chymhwysiad arferol rheolau cworwm pan fydd Aelod yn bresennol mewn cyfarfod pwyllgor dan Reol Sefydlog 17.49, os yw'r ddau Aelod sy'n rhannu rôl y cadeirydd yn bresennol, dim ond yr Aelod sy'n gweithredu fel cadeirydd y cyfarfod fyddai'n cyfrif at ddibenion cworwm.

## Pleidleisio

**33.** Mae Rheol Sefydlog 17.37 yn nodi y gall cadeiryddion pwyllgor bleidleisio ac os yw nifer y pleidleisiau'n gyfartal, fod rhaid i'r cadeirydd arfer pleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog 6.20.

**34.** Os yw'r ddau Aelod sy'n rhannu rôl y cadeirydd yn bresennol, dim ond "cadeirydd gweithredol" y cyfarfod all bleidleisio ac arfer unrhyw bleidlais fwrw sy'n ofynnol. Mae hyn yn gyson â phresenoldeb yr Aelod arall yn unol â Rheol Sefydlog 17.49.

## Dirprwyon

**35.** Fel rhan o'r ymgynghoriad cam 2, roedd cytundeb eang, ond nid unfrydol, ymhlith yr ymgyngoreion na ddylid atal yr Aelod nad yw'n cadeirio rhag gweithredu fel dirprwy i aelod arall o'r pwyllgor o'r un grŵp yn unol â Rheol Sefydlog 17.48.

**36.** Felly, mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig y dylai Aelod sy'n rhannu swydd cadeirydd pwyllgor, ond nad yw'n gweithredu fel cadeirydd y cyfarfod neu eitemau busnes perthnasol, allu gweithredu fel dirprwy i aelod arall o'r pwyllgor hwnnw o'r un grŵp gwleidyddol dan Reol Sefydlog 17.48. Mae gan Aelod sy'n bresennol fel dirprwy hawl i gymryd rhan yn y cyfarfod (gan gynnwys pleidleisio) ym mhob agwedd fel pe bai'n aelod o'r pwyllgor.

## Cadeirydd Dros Dro

**37.** Mae Rheol Sefydlog 17.22 yn darparu bod gan bob pwyllgor y pŵer i benodi cadeirydd dros dro yn absenoldeb ei gadeirydd.

**38.** Er y gall fod yn llai tebygol y bydd angen i bwyllgor sydd â dau Aelod sy'n rhannu swydd cadeirydd benodi cadeirydd dros dro, mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig y dylai'r Rheolau Sefydlog wneud darpariaeth i gadeirydd dros dro gael ei benodi yn absenoldeb y ddau Aelod sy'n rhannu rôl cadeirydd pwyllgor.

## Protocol

**39.** Mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig y dylai'r Rheolau Sefydlog ei gwneud yn ofynnol i'r ddau Aelod, ar ôl iddynt gael eu hethol fel cadeirydd sy'n rhannu swydd, ddod i gytundeb a chyhoeddi protocol sy'n amlinellu sut y byddant yn mynd ati i rannu eu swyddogaethau gweithdrefnol a gweithredol yn ymarferol.

**40.** Diben protocol yw nodi sut y mae'r ddau Aelod yn bwriadu mynd ati i gyflawni dyletswyddau'r rôl y maent yn ei rhannu, a rhoi lefel o dryloywder mewn perthynas â'r trefniadau hynny. O ystyried y bydd rhannu swydd yn drefniad newydd i bwyllgorau'r Senedd, byddai protocol yn helpu i roi eglurder ynghylch y dulliau gweithio y mae'r cadeiryddion sy'n rhannu swydd yn bwriadu eu defnyddio, a byddai o fudd i aelodau a staff y pwyllgorau, y Senedd ehangach, rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

**41.** Nid yw'r Pwyllgor Busnes yn cynnig bod y Rheol Sefydlog newydd yn ei gwneud yn ofynnol i gadeiryddion sy'n rhannu swydd ymgynghori â'r pwyllgor y byddant yn ei gadeirio ar y protocol nac i wahodd y pwyllgor i gytuno ar ei gynnwys. Fodd bynnag, gall y cadeiryddion sy'n rhannu swydd ddewis rhannu'r protocol â'r pwyllgor, er enghraifft i'w drafod neu ei nodi mewn cyfarfod cynnar.

## Ymddiswyddo, diswyddo a swydd wag

**42.** Mae Rheol Sefydlog 17 yn caniatáu i gadeirydd pwyllgor ymddiswyddo (Rheol Sefydlog 17.2L) neu gael ei ddiswyddo (Rheol Sefydlog 17.2M-17.2O). Mae hefyd yn amlinellu'r amgylchiadau pan ddaw cadair yn wag (Rheol Sefydlog 17.2P a 17.2Q) a sut y gellir llenwi swyddi gwag o'r fath (Rheol Sefydlog 17.2R a 17.2S).

**43.** Er mwyn cadw cysondeb rhwng gweithdrefnau ar gyfer cadeiryddion un Aelod a chadeiryddion sy'n rhannu swydd, mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig y dylai'r Rheolau Sefydlog ddarparu y gall naill ai un, neu'r ddau, o'r ddau Aelod sy'n rhannu swydd cadeirydd pwyllgor ymddiswyddo neu gael ei ddiswyddo/eu diswyddo yn unol â'r gweithdrefnau a nodir ar gyfer cadeiryddion un Aelod.

**44.** Hefyd, yn gyson â'r syniad mai rhannu rôl yw rhannu swydd ac oherwydd y byddai'r Aelodau wedi'u hethol neu eu penodi gan y Senedd ar y sail honno,

mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig bod y ddau gadeirydd sy'n rhannu swydd yn sefyll ac yn syrthio gyda'i gilydd. Felly, os bydd un o'r ddau Aelod sy'n rhannu swydd yn ymddiswyddo, yn cael ei ddiswyddo, yn cael ei ethol yn gadeirydd pwyllgor arall (yn unigol neu fel rhan o drefniadau rhannu swydd), yn peidio â bod yn Aelod, neu'n ymuno â grŵp gwleidyddol neu'n gadael grŵp gwleidyddol, byddai'r ddau Aelod yn peidio â bod yn gadeiryddion a bydd cadair y pwyllgor yn dod yn wag.

## Is-bwyllgorau

**45.** Caiff unrhyw bwyllgor benderfynu sefydlu un neu ragor o is-bwyllgorau. Mae rhaid i benderfyniad i sefydlu is-bwyllgor nodi ei aelodau, ei gadeirydd, ei gylch gorchwyl a'i barhad (Rheol Sefydlog 17.17).

**46.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai dau Aelod yn rhannu rôl cadeirydd pwyllgor hefyd yn gallu cadeirio is-bwyllgor o'r pwyllgor hwnnw. Fodd bynnag, ni fyddai pwyllgor sy'n sefydlu is-bwyllgor yn gallu creu trefniad rhannu swydd newydd at ddibenion cadeirio'r is-bwyllgor hwnnw.

## Natur a hyd cyfnod adolygu

**47.** Roedd y safbwyntiau a gafwyd fel rhan o'r ymgynghoriad cam 2[7] yn cefnogi treialu trefniadau rhannu swydd. Roedd y dull hwn yn cael ei ystyried yn eang fel ffordd o fynd i'r afael â heriau ymarferol a magu hyder yn y cysyniad cyn ystyried a ddylid ei sefydlu fel opsiwn parhaol ai peidio.

**48.** Mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig y dylai'r Rheol Sefydlog dros dro ddod i ben ar ddiwedd y Seithfed Senedd ac y dylid cynnal adolygiad cyn hyn.

**49.** Nodir hefyd dan adran 7 o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)[8], fod rhaid i'r Llywydd, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyfarfod cyntaf y Seithfed Senedd (a dim hwyrach na chwe mis ar ôl y cyfarfod hwnnw), gyflwyno cynnig i sefydlu pwyllgor i adolygu trefniadau rhannu swydd ar gyfer Aelodau o'r Senedd a deiliaid swydd berthnasol (a deiliaid swydd dros dro). Er nad yw cadeiryddion pwyllgor ymhlith y swyddi a enwir yn y Ddeddf, gallai gwaith unrhyw bwyllgor a sefydlir gan y Senedd yn unol â'r cynnig sy'n ofynnol gan adran 7 ystyried y treial rhannu swydd cadeirydd y pwyllgor, neu fod â goblygiadau i hynny.

---

[7] Rhannu swydd cadeirydd pwyllgor: Ymatebion i'r ymgynghoriad cam 2, y Pwyllgor Busnes, Senedd Cymru
[8] Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024

## Datgan buddiannau'r Aelodau

**50.** Mewn ymateb i wahoddiad i roi sylwadau ar gynnig y Pwyllgor Busnes i gyflwyno trefniadau rhannu swyddi, awgrymodd y Comisiynydd Safonau y gallai'r Pwyllgor Busnes ystyried cyflwyno dyletswydd i'r Aelod sy'n cadeirio'r trafodion ddatgan buddiannau hysbys y partner arall yn y trefniad rhannu swydd yn ei absenoldeb. Awgrymodd y Comisiynydd na fyddai hyn yn wahanol i'r ddyletswydd bresennol i ddatgan y buddiannau perthnasol hysbys sydd gan aelodau o'r teulu ("hyd y gŵyr") o dan Reol Sefydlog 13.8A.[9]

**51.** Ar hyn o bryd, nid yw dyletswydd i ddatgan ar ran Aelod arall yn bodoli yn y Rheolau Sefydlog neu ganllawiau ar ddatgan buddiannau, ac felly byddai angen newid i'r ddau ohonynt. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymgynghori ymhellach â'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar y pwynt hwn.

**52.** Yn ei ymateb, nododd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ei fod yn "ansicr ynghylch ymarferoldeb cymryd cyfrifoldeb dros ddatgan buddiannau Aelod arall o ran sicrhau bod gwybodaeth yn gyfredol a materion yn ymwneud â chyfrifoldeb personol wrth benderfynu gwneud datganiad a byddai'n argymell bod hyn yn cael ei ystyried ymhellach". Fodd bynnag, ni wnaeth "lunio barn benodol ar ddymunoldeb yr awgrym gan y Comisiynydd Safonau o ystyried bod nifer o gwestiynau'n parhau ynghylch ymarferoldeb hynny."

**53.** Wrth ystyried barn y Comisiynydd Safonau a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, nododd y Pwyllgor Busnes y canlynol hefyd:

a. yr effaith y gallai newid o'r fath ei chael ar yr egwyddor mai Aelodau unigol o'r Senedd yn unig sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â Rheolau Sefydlog 2 i 5;

b. a yw'n rhesymol disgwyl i bartneriaid cadeirio sy'n rhannu swydd fod â gwybodaeth fanwl am fuddiannau datganadwy ei gilydd;

c. pwy fyddai'n atebol pe bai dyletswydd o'r fath yn cael ei chyflwyno (hynny yw, a fyddai'r cadeirydd yn y trefniant rhannu swydd a fethodd â datgan buddiant ar ran ei bartner yn y trefniant yn atebol, y cadeirydd yn y trefniant rhannu swydd na chafodd ei fuddiant ei ddatgan gan ei bartner yn y trefniant, neu'r ddau);

[9] Llythyr oddi wrth y Comisiynydd Safonau at y Pwyllgor Busnes ar rannu swydd cadeirydd pwyllgor, 6 Tachwedd 2024

d. ansicrwydd ynghylch pwy fyddai’n atebol am fethu â datgan buddiant mewn cysylltiad â phenderfyniad penodol yn y trafodion hynny a allai arwain at fantais ariannol uniongyrchol i'r Aelod, (neu, hyd y gŵyr yr Aelod, i bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod) a fyddai'n fwy na’r fantais a allai ddod i ran etholwyr yn gyffredinol, o ystyried y gallai hyn fod yn drosedd.

**54.** O ystyried y materion a amlinellwyd uchod, cytunodd y Pwyllgor Busnes i beidio â chynnig newidiadau i'r dull o ddatgan buddiannau – hynny yw, ni ddylai fod unrhyw ddisgwyliad y dylai Aelodau (boed yn gadeiryddion sy'n rhannu swydd neu fel arall) ddatgan buddiannau ar ran unrhyw Aelod arall. Fel gyda phob agwedd ar y cynnig, cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai hyn yn cael ei adolygu drwy gydol y cyfnod treialu.

# 3. Penderfyniad

Ar 18 Medi 2025, cytunodd y mwyafrif o aelodau’r Pwyllgor Busnes yn ffurfiol i gynnig y newidiadau i’r Rheolau Sefydlog a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r Rheol Sefydlog newydd arfaethedig yn yr Atodiad.

# Atodiad A: Newid arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog a'r nodiadau esboniadol

| RHEOL SEFYDLOG 12 – Busnes yn y Cyfarfodydd Llawn | |
|---|---|
| 12.16. Mae'r categorïau o fusnes y gellir ei gymryd mewn Cyfarfod Llawn heb rybudd, gyda chytundeb y Llywydd, yn cynnwys:<br>(i) datganiadau gan y Llywydd, gan aelod o'r llywodraeth neu gan y Comisiwn am unrhyw fater sydd o fewn ei gyfrifoldeb;<br>(ii) cyflwyno Aelodau newydd;<br>(iii) teyrngedau coffa i gyn-Aelodau ac eraill;<br>(iv) etholiadau, enwebiadau neu benodiadau gan y Cynulliad, gan gynnwys cynigion o dan Reol Sefydlog 17.2A a 17A.6;<br>(v) datganiadau personol;<br>(vi) unrhyw ddadl frys a gynigir gan Aelod o dan Reol Sefydlog 12.69;<br>(vii) cynigion gweithdrefnol o dan Reol Sefydlog 12.31;<br>(viii) pwyntiau o drefn sy'n ymwneud â chynnal busnes; a<br>(ix) unrhyw faterion eraill sy'n briodol ym marn y Llywydd. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'n ofynnol i'r newid canlyniadol arfaethedig ehangu'r categorïau o fusnes y gellir ei gymryd mewn Cyfarfod Llawn heb rybudd i gynnwys cynigion sy'n ymwneud ag enwebu cadeiryddion pwyllgor sy'n rhannu swydd. |

# Atodiad B: Y Rheolau Sefydlog, fel y'u diwygiwyd

**RHEOL SEFYDLOG 12 – Busnes yn y Cyfarfodydd Llawn**

12.16. Mae'r categorïau o fusnes y caniateir ymdrin â hwy mewn cyfarfod llawn heb hysbysiad, gyda chytundeb y Llywydd, yn cynnwys:

(i) datganiadau gan y Llywydd, gan aelod o'r llywodraeth neu gan y Comisiwn am unrhyw fater sydd o fewn ei gyfrifoldebau;

(ii) cyflwyno Aelodau newydd;

(iii) teyrngedau coffa i gyn-Aelodau ac eraill;

(iv) etholiadau, enwebiadau neu benodiadau gan y Senedd, gan gynnwys cynigion o dan Reol Sefydlog 17.2A a 17A.6;

(v) datganiadau personol;

(vi) unrhyw ddadl frys a gynigir gan Aelod o dan Reol Sefydlog 12.69;

(vii) cynigion gweithdrefnol o dan Reol Sefydlog 12.31;

(viii) pwyntiau o drefn sy'n ymwneud â chynnal busnes;

(ix) unrhyw faterion eraill sy'n briodol ym marn y Llywydd.

**RHEOL SEFYDLOG 17A – Rhannu swydd cadeirydd pwyllgor**

**Cyffredinol**

17A.1. Mae Rheol Sefydlog 17A yn gwneud darpariaeth dros dro ar gyfer rhannu swydd cadeirydd pwyllgor. Bydd Rheol Sefydlog 17A yn peidio â chael effaith ar 30 Awst 2030 neu pan fydd y Senedd yn penderfynu felly, pa un bynnag sydd gyntaf. Pan fo darpariaethau a gynhwysir yn Rheol Sefydlog 17A yn gwrthdaro â darpariaethau eraill y Rheolau Sefydlog, mae rhaid rhoi blaenoriaeth i'r rhai yn Rheol Sefydlog 17A.

17A.2 Pan fo dau Aelod yn rhannu swydd cadeirydd pwyllgor, ystyrir mai un cadeirydd ydynt (sy'n golygu un lle pwyllgor) at ddibenion Rheol Sefydlog 17 a'i Hatodiad.

17A.3 Pan fo dau Aelod yn rhannu swydd cadeirydd pwyllgor, caniateir i'r naill neu'r llall o'r ddau Aelod weithredu ar ran y ddau mewn cysylltiad â swyddogaethau cadeirydd pwyllgor, yn ddarostyngedig i'r protocol sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 17A.18.

17A.4 Pan fo dau Aelod yn rhannu swydd cadeirydd pwyllgor, mae cyfeiriadau yn y Rheolau Sefydlog at gadeirydd pwyllgor i'w dehongli fel rhai sy'n golygu y naill neu'r llall neu'r ddau Aelod sy'n rhannu'r swydd, yn ôl y digwydd.

17A.5. Yn y Rheol Sefydlog hon, ystyr "cadeiryddion sy'n rhannu swydd" yw dau Aelod sy'n rhannu swydd cadeirydd pwyllgor.

**Ethol neu benodi cadeiryddion sy'n rhannu swydd**

17A.6. Ar gyfer unrhyw bwyllgor a sefydlwyd gan benderfyniad y Senedd ac nad yw cynnig o dan Reol Sefydlog 17.2T wedi'i dderbyn ar ei gyfer, caiff y Pwyllgor Busnes gynnig bod cadeirydd y pwyllgor hwnnw'n gymwys i enwebu dau Aelod (a dim mwy na dau Aelod) i'w hethol i rannu swydd cadeirydd pwyllgor.

17A.7. Nid yw Rheol Sefydlog 17A.6 yn gymwys i'r Pwyllgor Busnes, Pwyllgor y Llywydd na'r pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a bennir yn Rheol Sefydlog 22 (Safonau Ymddygiad).

17A.8.Nid yw derbyn cynnig o dan 17A.6 mewn perthynas â phwyllgor penodol yn atal enwebu Aelodau unigol i'w hethol yn gadeirydd y pwyllgor hwnnw.

17A.9.Wrth gyflwyno cynnig o dan Reol Sefydlog 17A.6 neu Reol Sefydlog 17.3, rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau nad oes mwy na thri phwyllgor yn gymwys i ddau Aelod gael eu henwebu neu eu penodi fel cadeiryddion sy'n rhannu swydd ar unrhyw un adeg.

17A.10. Caniateir enwebu dau Aelod yn unol â Rheol Sefydlog 17.2F (a'u heilio yn unol â Rheol Sefydlog 17.2G pan fo'n gymwys) i rannu swydd cadeirydd pwyllgor dim ond:

(i) os enwir y ddau Aelod mewn un enwebiad;

(ii) os nad enwebir y naill neu'r llall o'r ddau Aelod fel Aelod unigol ar gyfer yr un cadeirydd pwyllgor, neu fel ymgeisydd unigol neu ar y cyd ar gyfer unrhyw gadeirydd pwyllgor arall y mae enwebiadau'n cael eu cymryd ar ei gyfer yn yr un cyfarfod.

17A.11. Pan fo'r Senedd wedi cytuno i gynnig o dan Reol Sefydlog 17.2T, caiff y cynnig perthnasol o dan Reol Sefydlog 17.3 gynnig dau Aelod o'r un grŵp gwleidyddol i rannu swydd cadeirydd pwyllgor.

### Cadeiryddion pwyllgor sy’n rhannu swydd: ymddiswyddo, diswyddo a swydd wag

17A.12. Mae Rheolau Sefydlog 17.2L i 17.2S yn gymwys mewn perthynas â chadeiryddion pwyllgor sy’n rhannu swydd (ac eithrio’r rhai a benodir o dan Reol Sefydlog 17A.11), gyda’r addasiadau a ganlyn:

(i) mae rhaid i unrhyw benderfyniad o dan Reol Sefydlog 17.2M gynnig diswyddo’r ddau Aelod sy’n rhannu swydd cadeirydd pwyllgor ac, yn unol â Rheol Sefydlog 17.2N, ni chaiff y naill neu’r llall gymryd rhan mewn pleidlais sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 17.2M;

(ii) daw’r swydd yn wag os bydd unrhyw un o’r amgylchiadau a restrir yn Rheol Sefydlog 17.2P yn digwydd mewn perthynas â’r naill neu’r llall, neu’r ddau, o’r ddau Aelod dan sylw.

### Cadeirydd Dros Dro

17A.13. Pan fo dau Aelod yn rhannu swydd cadeirydd pwyllgor, dim ond yn absenoldeb y ddau Aelod y mae Rheol Sefydlog 17.22 yn gymwys.

### Presenoldeb mewn cyfarfodydd

17A.14. Gall y ddau Aelod sy’n rhannu swydd cadeirydd pwyllgor fod yn bresennol mewn cyfarfod pwyllgor ar yr un pryd.

17A.15. Dim ond un o’r cadeiryddion sy’n rhannu swydd all weithredu ar unrhyw adeg benodol fel cadeirydd cyfarfod, neu ran o'r cyfarfod, at ddibenion swyddogaethau a restrir yn Rheolau Sefydlog 17.23, 17.25 i 17.28, 17.33, 17.34, 17.36, 17.37, 17.39, 17.47, 17.52, a 32.3.

17A.16. Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 17A.14, pan fo’r ddau Aelod sy’n rhannu swydd cadeirydd pwyllgor yn bresennol mewn cyfarfod pwyllgor ar yr un pryd, ystyrir bod yr Aelod nad yw’n gweithredu fel cadeirydd ar unrhyw adeg benodol yn bresennol yn unol â Rheol Sefydlog 17.49.

17A.17. Mae cadeirydd sy’n rhannu swydd yn gymwys i weithredu fel dirprwy ar gyfer aelod o’r pwyllgor o’r un grŵp gwleidyddol yn unol â Rheol Sefydlog 17.48 ar gyfer unrhyw gyfarfod, neu ran o gyfarfod, nad yw’n gweithredu fel cadeirydd yn ystod y cyfarfod hwnnw.

### Protocol

17A.18. Mae rhaid i ddau Aelod sy’n rhannu swydd cadeirydd pwyllgor gytuno a chyhoeddi protocol sy’n nodi eu ffyrdd o weithio o fewn pedair wythnos eistedd i’w hethol neu eu penodi.

**Is-bwyllgorau**

17A.19. Ni chaiff pwyllgor sy'n sefydlu is-bwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 17.17 greu trefniad rhannu swydd newydd at ddiben cadeirio’r is-bwyllgor hwnnw.